Y Pwyllgor Cyllid

Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (Darpariaethau Canlyniadol ac Atodol) 2018

Mae'r Offeryn Statudol hwn yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Cyllid o dan Reol Sefydlog 27.8A.

Cefndir a Phwrpas

1. Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adran 188 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (y Ddeddf).
2. Mae rheoliad 2 yn diwygio Atodlen 1 i Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 i ddarparu bod Awdurdod Refeniw Cymru ("WRA") i'w drin fel "awdurdod llywodraeth ganolog" at ddibenion y Rheoliadau hynny.
3. Mae rheoliad 3 yn diwygio Atodlen 19 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i ddarparu bod WRA i'w drin fel "awdurdod Cymreig perthnasol" at ddibenion y Ddeddf honno.
4. Mae rheoliad 4 yn diwygio Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015 i ddarparu bod cadeirydd ac aelodau anweithredol WRA wedi'u gwahardd rhag dod yn aelodau o Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
5. Mae Rheoliad 5 yn diwygio Deddf Elw Troseddau 2002 er mwyn gwneud darpariaeth atodol mewn cysylltiad ag adran 186 (enillion troseddau) o'r Ddeddf.

Y weithdrefn

6. Negyddol.

Craffu ar rinweddau

7. Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Amcanion polisi

Datganiad ar y bwriad polisi

8. Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor i graffu ar y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru), rhoddodd Llywodraeth Cymru wybodaeth am y bwriad polisi o ran y pwerau dirprwyedig yn y Bil.

9. Mae'r rheoliad a gyflwynwyd **yn cyd-fynd â** pholisïau cysylltiedig yn y datganiad.

10. Nododd fod Adran 186 y Bil Casglu a Rheoli Trethi ({ut2} (Adran 188 yn y Ddeddf) yn galluogi Gweinidogion Cymru i "wneud unrhyw ddarpariaeth gysylltiedig, ganlyniadol, atodol, drosiannol, ddarfodol neu arbed er mwyn rhoi effaith lawn i ddarpariaeth y Bil (Deddf)".

Gwaith craffu Cyfnod 1 gan y Pwyllgor Cyllid

11. Ni wnaed unrhyw sylwadau.

Ymatebion i'r ymgynghoriad

Ymgynghoriad y Cynulliad

12. Ni wnaed unrhyw sylwadau.

Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru

13. Ni wnaed unrhyw sylwadau.

Rheoliadau yn yr Alban

14. Mae Rheoliad 2 **yn gyson** â deddfwriaeth yr Alban. Mae Revenue Scotland wedi'i gynnwys yn Atodlen 1 o'r Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 fel awdurdod llywodraeth ganolog.

15. Mae Rheoliad 3 **yn gyson** â deddfwriaeth yr Alban. Mae Adran 4 o'r Rheoliadau Diwygio Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol) (Yr Alban) 2015 yn mewnosod Revenue Scotland yn Atodlen 19 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

16. Mae Rheoliad 4 **yn gyson** â deddfwriaeth yr Alban. Mae'r Atodlen yng Ngorchymyn Senedd yr Alban (Anghymhwyso) 2015 yn gwahardd holl aelodau bwrdd Revenue Scotland (sy'n cynnwys Cadeirydd ac aelodau anweithredol) rhag bod yn aelod o Senedd yr Alban.

17. Mae Rheoliad 5 yn diwygio Deddf Elw Troseddau 2002, sy'n ymwneud ag ymchwilwyr ariannol achrededig. Nid oes deddfwriaeth **gyfwerth** yn yr Alban gan nad yw ymchwilwyr o'r fath yn cael eu defnyddio yn yr Alban.

Rheoliadau'r DU

18. **Nid oes gwahaniaethau nodedig** rhwng y rheoliadau. Byddai'r rheoliadau arfaethedig yn rhoi'r un pwerau i Weinidogion Cymru â'r Ysgrifennydd Gwladol.

Ymateb y Llywodraeth

19. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r adroddiad gan y Pwyllgor Cyllid.

Safbwynt y Pwyllgor

20. Nododd y Pwyllgor y Rheoliadau.